

Bancio lleol yn dychwelyd i Gorwen

Mae llawer o drefi bach wedi colli eu Banc olaf; bu hyn yn ergyd farwol i gymunedau lleol a busnesau bach, yn enwedig i siopau bach yn y dref.

Collodd Corwen, tref o faint go lew ar yr A5, ac un o drefi mwyaf hanesyddol yr ardal, ei hunig fanc ym mis Medi 2016. Daeth y gymuned ynghyd a llofnodwyd deiseb i arbed cangen NatWest yn Sgwâr Corwen.

Cafodd Cyngor Tref Corwen gefnogaeth gan yr AS lleol, Susan Elan Jones, a hyrwyddodd ein hachos. Ar 16 Tachwedd 2016 cyflwynodd y ddeiseb, ac achos cryf, i'r Senedd gan nodi'r effaith andwyol ar y gymuned a busnesau yn sgil colli eu gwasanaethau bancio.

Ymhellach, dadleuodd y dylai Seneddau'r DU a Chymru roi deddfwriaeth yn ei lle i ddatblygu bancio cymunedol i lenwi'r bwlch, bwlch a oedd fod i gael ei lenwi gan ein Swyddfeydd Post lleol.

Ond mae Swyddfeydd Post bach yn cau hefyd, neu'n newid eu gwasanaethau, yn y trefi oherwydd y newidiadau yng nghontractau perchnogaeth swyddfa bost, felly mewn rhai llefydd mae'n trefi bach yn dioddef ddwywaith drwy gau gwasanaeth hanfodol.

Fodd bynnag, mae Tref Corwen yn ymladd yn ôl! Rydym wedi datblygu perthynas newydd gyda NatWest drwy sefydlu gwasanaeth cefnogi bancio sydd wedi'i leoli yn Canolfan Ni, Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych, un diwrnod yr wythnos.

Meddai Sally Lloyd Davies, Rheolwr Ymgysylltiad Cymunedol a Datblygiad y Bartneriaeth, "Mae cael NatWest yma yn y ganolfan wedi rhoi cyfle i'r cyhoedd allu dod i weld rheolwr cefnogaeth NatWest i drafod eu hanghenion bancio yn breifat".

Mae Greg Monks, rheolwr cefnogaeth NatWest, yn credu'n gryf mewn ymgysylltu â'r gymuned leol. Yn ogystal â gweld cleientiaid mewn apwyntiadau un-i-un, mae'n cynnig mynediad mwy anffurfiol a chynghor i ymwelwyr a defnyddwyr gwasanaeth Canolfan Ni. Mae Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych a NatWest yn gobeithio datblygu'r gwasanaeth gyda sesiynau "aros yn ddiogel ar-lein".

Wrth i'r Bartneriaeth weithredu'r prosiect "Lle Chi neu Ni" gwerth £350,000 a ariannwyd gan y Gronfa Loteri Fawr ar draws cymunedau Edeirnion, prosiect a anelir at leihau unigrwydd a gwella mynediad i wasanaethau, byddwn yn parhau i weithio gyda NatWest i ehangu mynediad i'r gwasanaeth Bancio Cymunedol.

Tony Sutherland
Ward Isaf Corwen